GIG

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

Abladiad radio-amledd deubegwn dan reolaeth rhwystriant ar gyfer gorfislif

Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Rhagfyr 2004

Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 104

Abladiad radio-amledd deubegwn dan reolaeth rhwystriant ar gyfer gorfislif
Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2004

I archebu copïau
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0785. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0784. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau o Linell Ymateb y GIG hefyd, rhif cyfeirnod N0783.

National Institute for Clinical Excellence

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-839-1

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Rhagfyr 2004
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argraffir yn ôl y galw

© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Rhagfyr 2004. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

Cynnwys

Ynglŷn â'r wybodaeth hon	**4**
Ynglŷn ag abladiad radio-amledd deubegwn dan reolaeth rhwystriant ar gyfer misglwyfau trwm	**5**
Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?	**8**
Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi	**9**
Gwybodaeth bellach	**10**

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn abladiad radio-amledd deubegwn dan reolaeth rhwystriant (a gaiff ei alw'n syml yn abladiad radio-amledd o hyn ymlaen). Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw abladiad radio-amledd yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol ar gyfer trin misglwyfau trwm (y gair meddygol yw gorfislif).

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw abladiad radio-amledd ac o ba mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cleifion a'r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar dudalen 10).

Ynglŷn ag abladiad radio-amledd ar gyfer mislif trwm

Yn ystod misglwyf, bydd y feinwe sy'n leinio'r groth yn dod i ffwrdd a chaiff ei phasio drwy'r fagina gyda rhywfaint o waed. Yn y cyfnod cyn y misglwyf nesaf, bydd y leinin yn tyfu eto. Os yw merch yn cael misglwyf trwm bob mis, un ffordd o leihau'r gwaed a'r feinwe a gollir yw tynnu peth o leinin y groth, sef yr endometriwm.

Mewn abladiad radio-amledd, defnyddir egni radio-amledd i gynhesu a dinistrio leinin yr endometriwm. Y nod yw ysgafnhau'r misglwyfau neu eu rhwystro'n gyfan gwbl (y gair meddygol am hyn yw amenorrhoea). Rhoddir y darn o'r offer sy'n darparu'r egni radio-amledd yn fagina'r ferch a thrwy geg y groth i'r groth. Lluniwyd yr offer fel bod y rhan benodol sy'n darparu'r egni radio-amledd yn gallu ehangu i siâp y groth. Ar ôl cynhesu, caiff yr offer ei ddychwelyd i'w siâp cywir a'i dynnu allan. Ar gyfer y weithdrefn hon, bydd y ferch, naill ai yn cael anesthetig lleol neu anesthetig cyffredinol.

Pa mor dda y mae'n gweithio

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Edrychodd NICE ar bedair astudiaeth o abladiad radio-amledd ar gyfer merched sy'n dioddef misglwyfau trwm. Dangosodd y rhain nad oedd tua hanner y merched yn cael misglwyfau o gwbl

flwyddyn ar ôl cael y driniaeth. Y ffigurau gwirioneddol ar gyfer hyn yn yr astudiaethau oedd 41% i 59% o ferched (lle mae 41% fel dweud 41 o bobl allan o 100)

Cymharodd dwy o'r astudiaethau abladiad radio-amledd â dulliau eraill o dynnu leinin yr endometriwm. Roedd un o'r dulliau eraill yn golygu rhoi balŵn fach heb ei chwyddo yn y groth ac yna ei llenwi a hylif wedi ei gynhesu. Roedd y dull arall yn golygu defnyddio math arall o offer a elwir yn electrod rhôl-belen i gynhesu leinin yr endometriwm. Yn y ddwy astudiaeth, daeth misglwyf mwy o ferched i ben ar ôl cael abladiad radio-amledd nag ar ôl cael y dull arall.

Mesurodd un astudiaeth leihad mewn gwaedu mewn merched ar ôl y driniaeth. Edrychodd ar faint o ferched a gafodd fisglwyfau arferol neu ysgafnach ar ôl cael y driniaeth (felly roedd y nifer hwn yn cynnwys merched oedd yn cael ysmotiau o waed neu ddim misglwyf wedyn). Roedd y niferoedd ar gyfer hyn yn fras yr un peth yn y grŵp o ferched a gafodd abladiad radio-amledd â'r grŵp a gafodd y dull rhôl-belen (91% ac 88%).

Canfu dwy astudiaeth fod y merched ar y cyfan yn fodlon ar y driniaeth radio-amledd a bod eu hansawdd bywyd yn well ar ôl cael y driniaeth. (Nid edrychodd y ddwy astudiaeth arall ar y materion hyn.)

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr ei bod yn ymddangos fod yr abladiad radio-amledd yn gweithio'n dda yn y byrdymor, er nad oedd llawer o wybodaeth am effeithiau hirdymor y driniaeth.

Risgiau a phroblemau posibl

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Yn yr astudiaethau, cafodd rhai merched boen yn y pelfis, llid ar yr endometriwm, haint wrinol, cyfog neu chwydu ar ôl y driniaeth. Yn yr astudiaeth a oedd yn cynnwys y nifer mwyaf o ferched, cafodd 23 allan o 175 o ferched broblem ar ôl y driniaeth. Cafodd naw ohonynt haint yn yr wrin neu'r fagina, cafodd dwy ohonynt achos o waed yn ceulo yn y groth (gelwir hyn yn hematometra), a chafodd dwy o'r merched afiechyd llidiog y pelfis.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr mai'r problemau posibl oedd haint a allai achosi llid ar leinin yr endometriwm, gwaedu a niwed i'r groth neu'r ardal gyfagos.

Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar abladiad radio-amledd ar gyfer misglwyfau trwm. Pan fydd meddygon yn ei ddefnyddio ar gyfer merched sy'n dioddef misglwyfau trwm, mae wedi argymell, y dylent sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod ansicrwydd am effeithiau hirdymor y weithdrefn
- bod y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i'r weithdrefn
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

Mae NICE hefyd wedi annog meddygon i gadw cofnodion o faint o ferched fydd yn ail-ddechrau cael misglwyfau trwm ymhen amser ar ôl cael y driniaeth, a faint fydd yn dechrau cael problemau. Bydd y wybodaeth hon yn rhoi darlun gwell o effeithiau hirdymor abladiad radio-amledd.

Dylai meddygon ddilyn argymhellion yr Asiantaeth Dyfeisiadau Meddygol (MDA) wrth gynnal y weithdrefn hon. (Ers gwneud yr argymhellion hyn, mae'r MDA wedi cael ei disodli gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd). Mae'r argymhellion yn amlinellu'r amgylchiadau lle na fyddai abladiad radio-amledd, o bosibl, yn ddewis addas, sef: os mai croth fach sydd gan y ferch; os yw'r ferch yn cymryd triniaethau hormon cyn y weithdrefn; ac os yw'r ferch wedi cael heintiau yn y pelfis yn y gorffennol. Dywed yr argymhellion hefyd os yw'r

meddyg o'r farn y gallai croth y ferch fod wedi symud ychydig o'r safle arferol, dylai sicrhau fod yr offer meddygol yn y lleoliad cywir ar sgan uwchsain cyn dechrau cynhesu'r endometriwm. Ac argymhellir y dylai meddygon, yn ôl arfer, wirio'r groth drwy ddefnyddio tiwb archwilio arbennig a elwir yn hysterosgop cyn rhoi'r offer radio-amledd yn ei le. Mae'r MDA hefyd yn argymell na ddylai diathermi, sy'n defnyddio cerrynt trydanol amledd-uchel, gael ei gynnal yr un pryd â'r driniaeth hon.

Dywed NICE hefyd fod angen sicrhau fod meddygon sydd am gynnal abladiad radio-amledd wedi cael yr hyfforddiant cywir. Bydd y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Endosgopi Gynecolegol yn cyhoeddi safonau hyfforddi ar gyfer meddygon.

Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai bod eich meddyg wedi cynnig abladiad radio-amledd i chi ar gyfer misglwyfau trwm. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau abladiad radio-amledd a'r ansicrwydd am ei effeithiau hirdymor cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai bod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar abladiad radio-amledd deubegwn dan reolaeth rhwystriant ar gyfer gorfislif ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG104guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0783. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am broblemau sy'n ymwneud â'r misglwyf, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Rhagfyr 2004